# Eich asesiad Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)



Bydd y canllaw hwn yn esbonio beth i'w ddisgwyl a sut i baratoi ar gyfer eich asesiad PIP

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar **www.capita-pip.co.uk** neu chwiliwch am **'Capita PIP'**

Capita

# Cynnwys


4 Y broses PIP

6 Ynghylch eich asesiad PIP

8 Sut i baratoi ar gyfer **asesiad wyneb yn wyneb**

10 Sut i baratoi ar gyfer **asesiad ffôn**

12 Sut i baratoi ar gyfer **asesiad fideo**

14 Beth sy'n digwydd wedi eich asesiad PIP

15 Cwestiynau Cyffredin




# Pwy ydym ni

**Capita ydyn ni, cwmni annibynnol sy'n gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).**

Rydym yn cynnal asesiadau gweithredol i helpu'r DWP i ddeall sut mae eich cyflwr iechyd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd.

Bydd hyn yn eu helpu i asesu eich hawliad PIP yn deg a chywir.

Cynhelir asesiadau gan ein gweithwyr iechyd proffesiynol cymwysedig sy'n gweithio ledled Cymru a rhanbarthau canolog Lloegr.

Byddwn yn gwneud ein gorau i wneud ein gwasanaeth yn hawdd ei ddefnyddio. Byddwn yn gwrando arnoch chi ac yn gwneud yn siŵr eich bod yn teimlo'n gyfforddus.

> **Rydym yma i'ch cefnogi trwy'r broses PIP. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon. Gallwch ddod o hyd i'r holl ffyrdd o gysylltu â ni ar glawr cefn y canllaw hwn.**

# Y broses PIP

**Dyma grynodeb byr o’r prif gamau y byddwch yn mynd drwyddynt yn ystod y broses PIP.**

**Mae yna lawer o sefydliadau a all eich cefnogi gyda'ch cais. Ewch i www.advicelocal.uk i ddod o hyd i sefydliad annibynnol sy’n rhoi cyngor am ddim yn eich ardal.**

## 1. Cofrestru i wneud cais am PIP

I wneud cais, bydd angen i chi gysylltu â’r DWP. Dysgwch sut i wneud hyn a beth fydd ei angen arnoch yn:
**www.gov.uk/pip/how-to-claim**

## 2. Llenwi’r ffurflen a anfonir atoch

Bydd y DWP yn gofyn i chi lenwi ffurflen o'r enw ‘Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch chi’. Llenwch y ffurflen gan ddefnyddio’r nodiadau canllaw a ddaw gyda hi.

Peidiwch ag anghofio darparu cymaint o dystiolaeth ategol ag y gallwch.

## 3. Bydd eich cais yn cael ei adolygu

Bydd y DWP yn rhannu eich ffurflen wedi'i chwblhau a thystiolaeth ategol gyda'n tîm o weithwyr iechyd proffesiynol i'w hadolygu. Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu bob amser.

Mewn rhai achosion, gallwn gynnal asesiad yn defnyddio’r wybodaeth yr ydych wedi’i hanfon at y DWP yn unig. Fodd bynnag, bydd angen i’r rhan fwyaf o bobl gael asesiad wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy fideo.

I gael darlun llawnach o sut mae eich cyflwr iechyd yn effeithio arnoch, efallai y byddwn yn ceisio gwybodaeth ychwanegol trwy gysylltu â'r rhai sy'n eich cefnogi.

## 4. Eich asesiad PIP

Yn ystod yr asesiad, gofynnir cwestiynau i chi am eich gallu i gyflawni gweithgareddau a sut mae eich cyflwr iechyd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd.

Gall yr asesiad fod naill ai yn un o'n canolfannau asesu, dros y ffôn, neu dros alwad fideo. Mae'r rhain fel arfer yn cymryd awr ond weithiau gallant bara ychydig yn hirach.

Bydd ein gweithwyr iechyd proffesiynol yn ysgrifennu adroddiad ar ôl yr asesiad ac yn rhannu hwn â'r DWP.

## 5. Bydd y DWP yn gwneud penderfyniad am eich cais

Byddwch yn derbyn llythyr gan y DWP sy'n amlinellu eu penderfyniad am eich cais am PIP. Bydd hyn yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn ogystal â'r asesiad.

Os byddant yn penderfynu bod gennych hawl i PIP, bydd y llythyr yn dweud wrthych y gyfradd a gewch, pryd y cewch eich talu a'r dyddiad y caiff eich cais ei adolygu eto er mwyn i chi barhau i gael y cymorth cywir.

Bydd y llythyr hwn hefyd yn dweud wrthych beth i'w wneud nesaf os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad.



# Ynghylch eich asesiad PIP

## Cyflenwi tystiolaeth bellach

- ceisiwch gyflwyno cymaint o dystiolaeth â phosibl ar ddechrau eich hawliad
- os oes gennych unrhyw dystiolaeth newydd na wnaethoch ei hanfon at y DWP, a fyddech cystal â'i rhannu â'r gweithiwr iechyd proffesiynol ar ddechrau eich asesiad
- mae gwybodaeth gan y bobl sy'n gwybod sut mae eich cyflwr iechyd yn effeithio arnoch chi, fel ffrindiau, aelodau o'ch teulu a gweithwyr cymorth, yn ddefnyddiol iawn
- dywedwch wrth y gweithiwr iechyd proffesiynol am unrhyw feddyginiaeth neu offer arbenigol rydych chi'n eu defnyddio yn ystod eich asesiad.

| Gwybodaeth y gallech ei hanfon | Gwybodaeth nad oes angen i chi ei hanfon |
|---|---|
| • Rhestr presgripsiynau amlroddadwy cyfredol<br>• Dyddiadur neu lythyr gofalwr<br>Adroddiadau neu gynlluniau gofal/triniaeth diweddar gan:<br>• Feddyg Teulu neu ymgynghorwyr<br>• Nyrs seiciatrig gymunedol (CPN)<br>• Therapydd galwedigaethol<br>• Ffisiotherapydd<br>• Gweithiwr cymdeithasol<br>• Tîm cefnogi anabledd dysgu<br>• Aelodau o'r teulu neu ffrindiau sy'n darparu cymorth neu ofal<br>• Llythyrau rhyddhau o'r ysbyty neu glinig cleifion allanol am eich cyflwr neu ddiagnosis<br>• Llythyrau gan eich ymgynghorydd(wyr) am eich cyflwr neu ddiagnosis | • Cardiau neu lythyrau apwyntiad<br>• Llythyrau derbyniad i ysbyty<br>• Taflenni ffeithiau am eich cyflwr<br>• Taflenni ffeithiau am feddyginiaeth<br>• Gwybodaeth am brofion y byddwch chi'n eu cael<br>• Tocynnau bws neu drên i apwyntiadau yr ydych wedi eu mynychu<br>• Cyfarwyddiadau neu fapiau ar gyfer apwyntiadau yr ydych wedi eu mynychu<br>• Gwybodaeth rydych wedi ei hanfon i'r DWP o'r blaen ar gyfer PIP |

**Nid ydym yn disgwyl i chi dalu am dystiolaeth bellach. Os bydd angen mwy o wybodaeth arnom na'r hyn a ddarparwyd gennych eisoes, efallai y byddwn yn cysylltu â'r rhai a restrir ar eich ffurflen.**

# Beth i'w ddisgwyl yn eich asesiad PIP

## Pa mor hir fydd yr asesiad yn ei gymryd?

- bydd eich asesiad yn cymryd cymaint o amser ag sy’n angenrheidiol i’r gweithiwr iechyd proffesiynol gasglu’r wybodaeth sydd ei hangen – fel arfer mae hyn yn cymryd tuag awr
- byddwn yn anelu at ddechrau ein holl asesiadau mewn pryd ond efallai y bydd oedi os bydd apwyntiad rhywun arall yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl.

## Pwy fydd yn cynnal yr asesiad?

- bydd un o’n gweithwyr iechyd proffesiynol cymwysedig yn eich asesu. Maent i gyd yn nyrsys, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol neu barafeddygon ac maent wedi cael eu hyfforddi'n arbennig i gynnal asesiadau swyddogaethol
- bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol eisoes wedi gweld eich ffurflen ‘Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch chi’ ac unrhyw dystiolaeth ategol a anfonwyd gennych at yr Adran Gwaith a Phensiynau
- ni fyddant yn ceisio gwneud diagnosis o’ch symptomau nac yn argymell triniaeth, ac ni fyddant yn gwneud y penderfyniad ar eich cais am PIP – y DWP fydd yn gwneud hyn.

## Beth fydd yn digwydd yn ystod yr asesiad?

- bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gofyn cwestiynau i chi am sut mae eich cyflwr iechyd yn effeithio arnoch chi a sut rydych chi'n ymdopi â gweithgareddau o ddydd i ddydd
- i wneud yn siŵr bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn deall yn llawn yr anawsterau rydych chi'n eu hwynebu, efallai y bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gofyn rhai cwestiynau personol i chi, megis a ydych chi angen help i ymolchi neu wisgo
- yn dibynnu ar y math o asesiad yr ydych yn ei gael, efallai y gofynnir i chi wneud rhai symudiadau syml. Os teimlwch na allwch wneud y symudiadau hyn heb anghysur neu boen, rhowch wybod i'r gweithiwr iechyd proffesiynol
- ni fydd angen i chi dynnu unrhyw ddillad na chael archwiliad corfforol.

**Mae ein gweithwyr iechyd proffesiynol yno i'ch helpu. Nid ydynt yn ceisio eich dal chi allan. Peidiwch â phoeni am gael pob gair yn iawn a pheidiwch â phoeni os byddwch yn cynhyrfu.**

# Sut i baratoi ar gyfer asesiad wyneb yn wyneb

**Os byddwn yn eich gwahodd am asesiad wyneb yn wyneb, bydd hyn yn digwydd yn un o'n canolfannau asesu. Mae pob canolfan yn hygyrch. Rydym wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth am sut i gyrraedd eich canolfan asesu gyda'ch llythyr apwyntiad.**

## Alla' i recordio fy asesiad?

- os hoffech i'ch asesiad gael ei recordio ar ffurf sain, rhowch wybod i'r gweithiwr iechyd proffesiynol ar ddechrau eich asesiad
- cyn i'r asesiad ddechrau, bydd angen i chi lofnodi cytundeb sy'n esbonio sut y gellir defnyddio'r recordiad
- ar ôl eich apwyntiad, byddwch yn derbyn dolen i'ch recordiad trwy neges destun neu e-bost, a neges destun ar wahân gyda chyfrinair untro. Bydd y cyfrinair yn dod i ben ar ôl 24 awr a dim ond unwaith y gellir ei ddefnyddio i gael mynediad i'ch recordiad a'i lawrlwytho. Mae hyn i'ch diogelu chi a'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn ystod eich asesiad
- os ydych yn cael unrhyw anawsterau wrth gael mynediad i'ch recordiad, neu os hoffech gopi CD, cysylltwch â ni. Rydym ni hefyd yn cadw copi o'r recordiad.

## Alla' i hawlio costau teithio?

- i hawlio costau teithio i'r asesiad, llenwch y ffurflen a chynhwyswch yr holl docynnau a derbynebau ar gyfer eich trafnidiaeth gyhoeddus a'ch parcio
- gallwch ddefnyddio'r amlen a ddarparwyd gyda'ch llythyr apwyntiad – nid oes angen stamp arni.



## Pa brawf hunaniaeth sydd angen i mi ddod gyda mi?

Bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn dechrau'r asesiad drwy roi ei enw i chi a dangos ei fathodyn adnabod i chi. Bydd angen i chi hefyd ddod â dogfennau prawf hunaniaeth i'w dangos.

**Bydd angen i chi ddarparu dau fath o brawf hunaniaeth:**

- un eitem o restr A ac un eitem o restr B
- ddwy eitem o restr B (os nad oes gennych unrhyw rai o'r eitemau yn rhestr A).

| A – Prawf hunaniaeth â llun | B – Prawf hunaniaeth heb lun |
|---|---|
| • Pasbort y Deyrnas Unedig neu Dramor<br>• Cerdyn adnabod cenedlaethol tramor<br>• Trwydded yrru cerdyn llun o'r Deyrnas Unedig<br>• Cerdyn hunaniaeth etholiadol Gogledd Iwerddon<br>• Caniatâd preswylio biometrig<br>• Cerdyn teithio y Deyrnas Unedig gyda llun arno | • Tystysgrif geni – y DU neu dramor<br>• Tystysgrif priodas – y DU neu dramor<br>• Archddyfarniad absoliwt – y DU neu dramorTrwydded yrru bapur y DU<br>• Tystysgrif brodori neu ddinasyddiaeth y DU<br>• Cytundeb rhent cyngor neu gymdeithas tai y DU<br>• Cytundeb tenantiaeth cyngor neu gymdeithas dai y DUBil treth gyngor y DU<br>• Bil nwy, trydan neu ddŵr y DUTystiolaeth o hawl i fudd-dal y wladwriaeth neu fudd-dal awdurdod lleol yn y DU |

**Cofiwch, os nad oes gennych brawf adnabod, ni fyddwn yn gallu parhau â'r asesiad.**

# Sut i baratoi ar gyfer asesiad ffôn

**Asesiad ffôn yw lle rydym yn casglu gwybodaeth dros y ffôn i ddeall sut mae eich cyflwr iechyd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd.**

**Pethau i'w cofio cyn eich asesiad ffôn:**

- os ydym yn eich ffonio ar eich ffôn symudol, gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i wefru'n llawn
- ceisiwch ddod o hyd i le tawel gyda signal da a dim sŵn cefndir
- bydd yr alwad yn dod o rif 0808 a byddwn yn ceisio'ch galw fwy nag unwaith. Os na fyddwch yn ateb y galwadau, mae'n bosibl y byddwn yn dychwelyd eich hawliad i'r Adran Gwaith a Phensiynau
- os ydych yn dymuno cael cydymaith ac na all fod gyda chi yn bersonol, rhowch wybod i'r gweithiwr iechyd proffesiynol ar ddechrau'r asesiad a bydd yn ei ychwanegu at yr alwad
- bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gofyn i chi am rif ffôn eich cydymaith, felly mae'n ddefnyddiol os yw hwn yn barod gennych. Mae angen i'ch cydymaith fod yn barod i ateb y ffôn ar adeg eich apwyntiad.



## Alla’ i recordio fy asesiad?

- os hoffech i’ch asesiad gael ei recordio ar ffurf sain, rhowch wybod i'r gweithiwr iechyd proffesiynol ar ddechrau eich asesiad
- cyn i'r asesiad ddechrau, bydd angen i chi gytuno ar sut y gellir defnyddio'r recordiad
- ar ôl eich apwyntiad, byddwch yn derbyn dolen i'ch recordiad trwy neges destun neu e-bost, a neges destun ar wahân gyda chyfrinair untro. Bydd y cyfrinair yn dod i ben ar ôl 24 awr a dim ond unwaith y gellir ei ddefnyddio i gael mynediad i'ch recordiad a'i lawrlwytho. Mae hyn i'ch diogelu chi a'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn ystod eich asesiad
- os ydych yn cael unrhyw anawsterau wrth gael mynediad i'ch recordiad, neu os hoffech gopi CD, cysylltwch â ni. Rydym ni hefyd yn cadw copi o'r recordiad.

## Sut ydw i’n gwybod mai’r gweithiwr iechyd proffesiynol yw’r sawl mae’n honni bod?

- bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn cyflwyno ei hun drwy ddweud ei enw wrthych a dweud ei fod yn ffonio o Capita PIP
- bydd yn gofyn rhai cwestiynau adnabod i chi cyn y gall eich asesiad fynd yn ei flaen
- os oes gennych unrhyw bryderon nad yw’r gweithiwr iechyd proffesiynol y sawl mae’n honni bod, cysylltwch â ni. Mae ein manylion cyswllt ar glawr cefn y canllaw hwn.

## Beth ddylwn i ei wneud os byddwch yn colli signal yn ystod yr asesiad?

- os bydd hyn yn digwydd, bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn ceisio eich ffonio'n ôl
- os byddwch yn colli signal ac nad yw'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn cysylltu â chi, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl.

# Sut i baratoi ar gyfer asesiad fideo

**Asesiad fideo yw lle rydym yn casglu gwybodaeth ar alwad fideo i ddeall sut mae eich cyflwr iechyd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd.**

Rydym yn argymell eich bod yn profi eich offer cyn eich asesiad fideo i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn. Teipiwch y ddolen hon i'ch porwr rhyngrwyd: **https://dwp.attendanywhere.co.uk/callers** yna sgroliwch i lawr a chliciwch ar 'Test call' ar waelod y dudalen. Mae gennym fwy o wybodaeth a fideos ar gael am baratoi ar gyfer eich asesiad ar ein gwefan.

### Sut mae ymuno â'r asesiad fideo?

- ar amser eich apwyntiad, teipiwch y ddolen hon i'ch porwr rhyngrwyd **https://dwp.vc/waiting-area-capita** – gwnewch yn siŵr eich bod yn teipio'r cyfeiriad gwefan cywir
- cliciwch ar **'Enter Waiting Area'**
- darllenwch yr holl wybodaeth ar y sgrin a chliciwch ar **'Next step'**
- rhowch eich enw, dyddiad geni a rhif ffôn – ni ofynnir i chi fewnbynnu unrhyw wybodaeth arall. Dim ond tra bydd eich asesiad ar y gweill y byddwn yn cadw'r wybodaeth yma
- cliciwch ar y blwch i dderbyn y telerau defnyddio ac yna cliciwch ar **'Enter Waiting Area'**
- bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn dechrau'r alwad fideo pan ddaw amser eich apwyntiad.

## Alla' i recordio fy asesiad?

- ni chaniateir i chi recordio'r asesiad na thynnu lluniau
- ni allwn recordio'r asesiad ychwaith.

## Sut ydw i'n gwybod mai'r gweithiwr iechyd proffesiynol yw'r sawl mae'n honni bod?

- bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn cyflwyno ei hun drwy ddweud ei enw wrthych a dweud ei fod o Capita PIP
- bydd yn gofyn rhai cwestiynau adnabod i chi cyn y gall eich asesiad fynd yn ei flaen
- os oes gennych unrhyw bryderon nad yw'r gweithiwr iechyd proffesiynol y sawl mae'n honni bod, cysylltwch â ni. Mae ein manylion cyswllt ar glawr cefn y canllaw hwn.

## Beth ddylwn i ei wneud os byddaf yn colli cysylltiad yn ystod yr asesiad?

- os byddwch yn colli cysylltiad ar unrhyw adeg yn ystod yr asesiad, ceisiwch ail-ymuno. Os na allwch wneud hynny, bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn eich ffonio ac yn parhau â'r asesiad dros y ffôn.
- os byddwch yn colli signal neu'n cael unrhyw anawsterau technegol ac nad yw'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn cysylltu â chi, cysylltwch â ni. Gallwch ddod o hyd i'n manylion ar glawr cefn y canllaw hwn.



# Ar ôl eich asesiad PIP

Ar ôl eich asesiad, bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn ysgrifennu adroddiad yn seiliedig ar yr wybodaeth rydych chi wedi ei darparu, yn ogystal ag unrhyw beth a drafodwyd yn ystod eich asesiad.

Bydd yn anfon yr adroddiad at y DWP i'w helpu i wneud penderfyniad ar eich cais.

## Beth allaf i ei wneud os ydw i'n anhapus â'r ffordd y cynhaliwyd fy asesiad?

Rhowch wybod i ni os ydych yn anhapus ag unrhyw ran o'n gwasanaeth. Mae hyn yn ein helpu i ddeall lle mae angen inni wella. Gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar glawr cefn y canllaw hwn.

## Sut mae'r DWP yn gwneud eu penderfyniad?

Bydd y DWP yn edrych ar eich hawliad a'r holl ddogfennau ategol, gan gynnwys:

1. Adroddiad yr asesiad
2. Eich ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch chi', ac
3. Unrhyw dystiolaeth arall rydych wedi ei darparu.

Unwaith y bydd wedi gwneud ei benderfyniad, bydd yn ysgrifennu atoch i roi gwybod a allwch chi gael PIP.

**Dylech gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau os:**

- ydych am gael copi o'ch adroddiad asesu
- ydych am herio'r penderfyniad
- oes gennych unrhyw gwestiynau am statws eich cais ar ôl i chi gael eich asesiad
- oes gennych unrhyw dystiolaeth newydd o sut mae eich cyflwr iechyd yn effeithio arnoch chi a'ch bod eisoes wedi cael eich asesiad.

**Manylion cyswllt y DWP: 0800 121 4433 (ffôn testun: 0800 121 4493).**

# Cwestiynau cyffredin

## Ai asesiad meddygol ydy hwn?

Nid yw asesiadau PIP yn rhai meddygol, ni fydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gwneud diagnosis o'ch cyflwr nac yn argymell triniaeth. Mae'n asesiad gweithredol i ddeall sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch chi.

## Pa mor hir fydd yr asesiad yn ei gymryd?

Mae asesiadau fel arfer yn cymryd tuag awr, er weithiau gallant gymryd ychydig yn hirach felly caniatewch ar gyfer hynny.

## Pwy fedra' i ddod â nhw gyda mi i'm hasesiad?

Rydym yn eich annog i ddod â chydymaith i'ch asesiad. Gallai fod yn ffrind, aelod o'r teulu, gofalwr neu weithiwr cymorth.

## Beth sydd angen i mi ddod ag ef i'm hasesiad?

Bydd angen i chi rannu prawf adnabod ar gyfer asesiad wyneb yn wyneb neu ateb rhai cwestiynau diogelwch ar gyfer asesiad ffôn neu fideo. Os oes gennych unrhyw dystiolaeth newydd na wnaethoch ei hanfon at y DWP, dylech hefyd gael honno wrth law.

## A allaf newid y ffordd y mae fy asesiad yn cael ei gynnal?

Pe byddai'n well gennych gael eich asesu mewn ffordd wahanol, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl fel y gallwn drafod hyn gyda chi.

## Beth os oes gennyf anghenion cyfathrebu ychwanegol e.e. anawsterau clyw neu angen cyfieithydd?

Os oes angen cyfieithydd iaith neu ddehonglydd BSL arnoch, cysylltwch â ni ar unwaith fel y gallwn drefnu hyn ar eich cyfer.

## Pwy sy'n gwneud y penderfyniad am fy nghais am PIP?

Bydd rheolwr achos yn yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gwneud penderfyniad ar eich hawliad. Bydd hyn yn seiliedig ar yr adroddiad asesu, eich ffurflen ‘Sut mae'ch anabledd yn effeithio arnoch chi’, ac unrhyw wybodaeth ategol a ddarparwyd gennych.

## Beth alla’ i ei wneud os nad wyf yn cytuno â'r penderfyniad?

Gallwch ofyn i'ch achos gael ei ailystyried. Bydd manylion am sut allwch chi wneud hyn yn eich llythyr penderfyniad oddi wrth y DWP.

## Gyda phwy y gallaf siarad os bydd angen cymorth arnaf drwy gydol y broses PIP?

Mae yna lawer o sefydliadau all eich helpu a’ch cefnogi ar hyd y ffordd, fel Cyngor ar Bopeth neu elusennau sy’n delio â chyflyrau penodol.

# Eich cefnogi trwy'r broses PIP

**Ein horiau swyddfa yw 8am i 8pm, Dydd Llun i Ddydd Gwener. Gall rhywun arall ffonio ar eich rhan. Bydd angen i'r person hwnnw wybod eich rhif Yswiriant Gwladol.**

| | | |
|---|---|---|
| | **Ffôn** | **0808 178 8114**<br>**0808 178 8115** (llinell Gymraeg) |
| | Os oes gennych chi nam ar eich clyw neu leferydd sy'n golygu ei bod yn anodd i chi ddefnyddio ffôn, defnyddiwch: | |
| | **Gwasanaeth dehongli testun** | **18001 0808 178 8114**<br>(defnyddiwch gydag apiau NGT neu Relay UK) |
| | **Ffôn testun** | **0289 032 9675** |
| | **Gwasanaeth dehongli fideo**<br>Os ydych chi'n ddefnyddiwr Iaith Arwyddion Prydain | Teipiwch y ddolen hon yn eich porwr rhyngrwyd: **www.capita-pip.co.uk/cy/cysylltwch-ni**<br>Sgroliwch i lawr i 'Video relay service' a chliciwch ar y ddolen |
| | **Post** | Capita PIP<br>PO Box 307<br>Darlington<br>DL98 1AB |
| | **E-bost** | **contactus@capita-pip.co.uk** |
| | **Ar-lein** | **www.capita-pip.co.uk**<br>neu chwiliwch am **'Capita PIP'** |

Mae yna lawer o sefydliadau a all eich cefnogi gyda'ch cais.
Ewch i **www.advicelocal.uk** i ddod o hyd i sefydliad annibynnol sy'n rhoi cyngor am ddim yn eich ardal.

**Mae fersiwn 'Hawdd i'w Darllen' o'r canllaw hwn hefyd ar gael ar www.capita-pip.co.uk**

Capita